**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/VG/5533/19

Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Tachwedd 2019

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019**
**Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2019**
**Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2019**

Yn unol ag adran 11A(4) Deddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, dyma roi gwybod bod yr offerynnau statudol hyn yn dod i rym llai na 21 diwrnod ar ôl y dyddiad gosod. Mae'r Memoranda Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn ynghlwm er gwybodaeth.

Bydd y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol (Rheoliad (UE) 2017/625) yn dod i rym yn llawn ar draws yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar 14 Rhagfyr 2019 ac yn dirymu'r ddeddfwriaeth fframwaith bresennol ar gyfer rheolaethau swyddogol ar hyd y gadwyn bwyd-amaeth. Mae'r Rheoliad yn rhan o becyn Rheolau Doethach yr UE ar gyfer Bwyd Mwy Diogel (SRSF) ac mae'n uniongyrchol berthnasol i gyfraith yr UE. Yn ôl cyfraith yr UE, mae'n ofynnol i'r Deyrnas Unedig (DU) greu darpariaeth i orfodi'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol.

Gohiriwyd drafftio'r offerynnau statudol oherwydd bod rhannau pwysig ohonynt yn dibynnu ar statws y DU, sef a oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth o'r UE ar ddyddiad dod i rym y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol (14 Rhagfyr 2019). Ni chafwyd sicrwydd ynghylch y sefyllfa hon gan Lywodraeth y DU na'r UE tan ychydig cyn 31 Hydref.

Mae effaith hyn ar y broses ddrafftio ar draws holl weinyddiaethau'r DU wedi bod yn sylweddol, a dyma'r rheswm pam na ellir cyflwyno'r offerynnau statudol terfynol i graffu arnynt mewn pryd i ganiatáu'r cyfnod o 21 diwrnod rhwng gosod a dod i rym ar 14 Rhagfyr.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym ni'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn cael ymateb.

Bydd y rheoliad rheolaethau swyddogol cyfredol (Rheoliad (CE) Rhif 882/2004) yn cael ei ddirymu pan ddaw'r rheoliad rheolaethau swyddogol i rym ar 14 Rhagfyr. Mae'r Offerynnau Statudol yn hanfodol i gynnal rheolaethau a gwaith gorfodi swyddogol. Os na wneir yr Offerynnau Statudol hyn, ni fydd gan Gymru fframwaith cyfreithiol i orfodi rheolaethau swyddogol, a allai beryglu iechyd y cyhoedd (yn ogystal ag iechyd a lles anifeiliaid), tanseilio hyder busnesau a defnyddwyr a pheryglu mynediad i farchnad yr UE. Os na fydd yr offerynnau statudol yn dod i rym ar 14 Rhagfyr, ni fydd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac awdurdodau gorfodi eraill yng Nghymru'r pwerau deddfwriaethol i orfodi cyfreithiau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar yr Offerynnau Statudol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac fel sy'n ofynnol gan gyfraith Ewrop. Dadansoddir ymatebion yn y Memoranda Esboniadol ond nid oedd angen newid yr Offerynnau Statudol yn benodol.

Mae Rheoliadau tebyg yn cael eu gwneud yn holl weinyddiaethau eraill y DU.

Rwy’n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a Sian Wilkins, Pennaeth y Gwasanaethau Siambr a Phwyllgor.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd